

# Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

## Fframwaith Gweithredu

Tyfu cynhyrchiant, arloesi a swyddi
ar draws Canolbarth Cymru

*2016*

© Aber Instruments



© Hilltop Honey



© Aber Instruments





© Charcroft Electronics



© Coleg Ceredigion

# Cynnwys

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru 05

Ymagwedd bartneriaeth at feithrin ein cyfleoedd 06

Ffyniant a pherfformiad economaidd 13

Ardaloedd economaidd o gwmpas a'u hymagweddau 20

Pum Blaenoriaeth Allweddol 26

**Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru**
Penmorfa
ABERAERON
SA46 0PA
**Ffôn:** 01545 572064





# Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn bartneriaeth ranbarthol gryf o gyrff cynrychioliadol o'r sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghanolbarth Cymru, ac fe'i sefydlwyd ar ddechrau 2015.



Daw aelodaeth sylweddol o'r sector preifat, gan gynnwys partneriaid sy'n cynrychioli gweithgynhyrchu, busnesau amaethyddol a thwristiaeth, ynghyd ag addysg bellach ac uwch, y sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr llywodraeth leol.

**Mae'r Bartneriaeth yn ceisio:**

- Sicrhau mwy o ganlyniadau economaidd a chanlyniadau economaidd gwell ar draws yr ardal drwy weithio mewn partneriaeth.
- Arwain ymagwedd gydweithredol yr ardal at ddatblygu economaidd.
- Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer swyddi a thwf economaidd yn yr ardal.
- Darparu llais cryf ar gyfer yr economi ranbarthol sydd bron yn gwbl wledig yng Nghanolbarth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn ceisio amlinellu ein consensws cyffredinol ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer sicrhau twf economaidd a ffyniant ar draws yr ardal. Mae'n ddogfen strategol sy'n amlinellu ein gweledigaeth ac amcanion eang ar gyfer yr ardal, gan geisio helpu i lywio polisïau a darparu gwasanaethau mewn modd effeithiol a chydlynus. Mae'n helpu i fynegi a chefnogi'r dyheadau ar gyfer Canolbarth Cymru wledig.



Y Cynghorydd Barry Thomas / Cadeirydd
**Arweinydd, Cyngor Sir Powys**



Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn / Is-gadeirydd
**Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion**

# Ymagwedd bartneriaeth at feithrin ein cyfleoedd

Mae ein fframwaith yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol i Ganolbarth Cymru ac yn amlinellu ein hymagwedd at wireddu newid sy'n gweddnewid gan ddwyn ynghyd y rhanddeiliaid allweddol ar draws yr ardal.

## Y cefndir

### Ein hardal:

- Yn cynnwys 39% o arwynebedd tir Cymru.
- Wedi'i nodweddu gan batrwm gwasgaredig o drefi marchnad bach.
- Bron yn gwbl wledig ei natur.
- Y trefi mwyaf yw Aberystwyth yng Ngheredigion a'r Drenewydd ym Mhowys.
- Yn y de mae'n cynnwys rhan sylweddol o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

### Ein pobl:

- Mae poblogaeth o ychydig dros 200,000 gan yr ardal, llai na 7% o boblogaeth Cymru.
- Mae'r dwysedd poblogaeth ymysg yr isaf yng Nghymru a Lloegr gyda 0.3 o bobl yr hectar (Cymru 1.49 o bobl yr hectar), gan greu heriau mawr o ran cael mynediad i wasanaethau a darparu gwasanaethau.
- Proffil oedran - cyfran is o boblogaeth oedran gweithio gyda chyfran uwch o oedran ymddeol. Cyfran sylweddol o'r garfan 16 - 25 oed sy'n adlewyrchu'r sefydliadau addysg uwch yn yr ardal.
- Mae oedolion iau yn symud o'r ardal ac mae pobl oedran gweithio hŷn ac oedolion sydd wedi ymddeol yn nodweddu'r ardal.








© Charcroft Electronics

### Gweithgarwch economaidd:

- Mae poblogaeth yr ardal sy'n economaidd weithgar (16+ oed) tua 102,700 o bobl, tra bo pobl 16 - 64 oed sy'n economaidd weithgar yn fwy na 75% o'r garfan oedran honno.
- Amcangyfrifir bod anweithgarwch economaidd (16-64 oed) yn 30,700, sef tua 24.6% o'r grŵp oedran. Mae gweithgarwch economaidd yn y grŵp oedran hwn wedi'i nodweddu gan nifer fawr o fyfyrwyr a'r rhai sydd wedi ymddeol yn gynnar, gyda'r rhai sy'n chwilio am waith yn llai na hanner cyfartaledd Cymru. Mae'r rhain yn adlewyrchu "tangyflogaeth" ac oedolion ifanc sy'n allfudo.


© Aber Instruments

## Strwythur cyflogaeth:

- Mae swyddi yn yr ardal mewn ystod gyfyngedig o sectorau ac wedi'u cysylltu'n aml â hunangyflogaeth a micro-fusnesau ond wedi'u dominyddu gan y sector

| Swyddi Gweithwyr fesul Diwydiant (%) | Tyfu Canolbarth Cymru | Wales | Great Britain |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Sylfaenol (A-B: Amaethyddiaeth a Mwyngloddio) | 1.5 | 0.4 | 0.4 |
| Ynni a Dŵr (D-E) | 0.75 | 1.5 | 1.1 |
| Gweithgynhyrchu (C) | 9.55 | 12.3 | 8.5 |
| Adeiladu (F) | 5.25 | 4.8 | 4.5 |
| Cyfanwerthu ac Adwerthu, gan gynnwys Masnach Moduron (G) | 14.6 | 14.4 | 15.9 |
| Storio Trafnidiaeth (H) | 3.9 | 3.5 | 4.5 |
| Llety a Gwasanaethau Bwyd (I) | 9.4 | 7.3 | 7.1 |
| Gwybodaeth a Chyfathrebu (J): | 1.5 | 2.3 | 4.1 |
| Ariannol a Gwasanaethau Busnes Eraill (K-N) | 9.65 | 14.7 | 22.2 |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd (O-Q) | 38.45 | 34.5 | 27.4 |
| Gwasanaethau Eraill (R-S) | 5.45 | 4.3 | 4.4 |

*Ffynhonnell: ONS arolwg cofrestr busnes a chyflogaeth (2014): Nid yw swyddi gweithwyr yn cynnwys gweithwyr hunangyflogedig, hyfforddeion a gefnogir gan y llywodraeth, Lluoedd EM, ac amaethyddiaeth seiliedig ar fferm.*

- Mae lefelau uchel o hunangyflogaeth.
- Mae lefelau isel o ddiweithdra.
- Mae cyfran uwch o gyflogaeth ran-amser yn yr ardal o'i chymharu â Chymru gyfan, (38.2% o swyddi gweithwyr yn rhan-amser; Cymru 35%, PF 31.7%)
- Mae 11.3% o'r holl gyflogaeth yn yr ardal yn y sector twristiaeth, y gyfran uchaf yn unrhyw ardal yng Nghymru.





## Ein busnesau:

- Mae tua 14,385 o fusnesau yn yr ardal.
- Mae dros 89% o'r rhain yn ficro-fusnesau gyda llai na 10 gweithiwr, (PF 83.7%).

| Maint y busnes | Tyfu Canolbarth Cymru % | Tyfu Canolbarth Cymru |
|---|---|---|
| Micro (0 - 9 o weithwyr) | 89.2 | 12,795 |
| Bach (10 - 49 o weithwyr) | 9.2 | 1,380 |
| Canolig (50 - 249 o weithwyr) | 1.5 | 195 |
| Mawr (250+ o weithwyr) | 0.1 | 15 |
| *ONS IDBR Cyfrif Busnes - Unedau Lleol 2015* | | |

- Mae sylfaen economaidd gul gan yr ardal ac mae wedi'i dominyddu gan y sector amaethyddol:

| Busnesau yn ôl Sector Diwydiant (canrannau) | Tyfu Canolbarth Cymru | Wales |
|---|---|---|
| Busnesau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 31.90 | 20.90 |
| Busnesau cynhyrchu | 4.45 | 5.20 |
| Busnesau adeiladu | 8.90 | 9.50 |
| Busnesau masnach moduron | 2.95 | 3.20 |
| Busnesau cyfanwerthu | 2.95 | 3.30 |
| Busnesau adwerthu | 8.40 | 9.90 |
| Busnesau trafnidiaeth a storio | 2.55 | 3.00 |
| Busnesau llety a gwasanaethau bwyd | 7.05 | 8.10 |
| Busnesau gwybodaeth a chyfathrebu | 2.30 | 2.70 |
| Busnesau cyllid ac yswiriant | 0.95 | 1.40 |
| Busnesau eiddo | 2.10 | 2.20 |
| Busnesau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 6.25 | 7.90 |
| Busnesau gweinyddu a chymorth busnes | 6.35 | 6.80 |
| Busnesau gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn | 1.30 | 1.30 |
| Busnesau addysg | 1.95 | 2.30 |
| Busnesau iechyd | 4.40 | 5.90 |
| Y celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau busnes eraill | 5.30 | 6.40 |




© Coleg Ceredigion





# Ffyniant a pherfformiad economaidd



© Coleg Ceredigion

- Mae incwm y cartref yn isel yn yr ardal:

| • Lefelau cyflogau "fesul preswylfa", Wythnosol Gros, Amser Llawn | | |
|---|---|---|
| Tyfu Canolbarth Cymru: | Cymru: | Prydain Fawr: |
| £430.20 | £479.40 | £520.80 |

- Nid yw data Cynnyrch Domestig Gros yn hawdd i'w gael ar gyfer yr ardal.
- Mae'r cyfraniad cymharol y pen i'r economi gan bob sector yn yr ardal y tu ôl i'r ffigur ar gyfer Cymru sydd ynddo'i hun yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr. Mynegir y ffigurau hyn fel canran o'r ffigur Gwerth Ychwanegol Gros y pen Prydain Fawr:

| • Gwerth Ychwanegol Gros y pen | | |
|---|---|---|
| Tyfu Canolbarth Cymru: | Cymru: | Prydain Fawr: |
| 68.35% | 71.4% | 100% |




© Hilltop Honey







© Daviec



© Plant i

### Cyfathrebu a hygyrchedd

- Mae'r system ffyrdd yn adlewyrchu natur wledig yr ardal gyda'r ffordd ddeuol wedi'i chyfyngu i'r de-ddwyrain yn arwain at goridor yr M4/M50.
- Y llwybrau allweddol o'r gogledd i'r de yn yr ardal yw: A470 (T) yn cysylltu Caerdydd a de Cymru i'r gogledd trwy'r Canolbarth i Drawsfynydd a gogledd Cymru  A483 (T) yn cysylltu'r Drenewydd i Wrecsam, Glannau Mersi, yr M6 a Manceinion A487 (T) yn cysylltu de-orllewin Cymru trwy Aberteifi ac Aberystwyth i ogledd Cymru A486 yn cysylltu Bae Ceredigion i Gaerfyrddin a'r M4
- Y llwybrau allweddol o'r dwyrain i'r gorllewin yn yr ardal yw: A44 (T), A470(T), A489(T) a'r A458 (T) yn cysylltu i'r A49 (T) a'r A5 (T) a'r M54 yn y Gororau ac ymlaen i Orllewin Canolbarth Lloegr A40 yn cysylltu de Powys i dde-orllewin Cymru a'r A449, M4 a'r M50
- Mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig.
- Mae gwasanaethau rheilffyrdd yn cysylltu Aberystwyth ac Amwythig ar draws gogledd yr ardal i Orllewin Canolbarth Lloegr a Maes Awyr Birmingham a thrwy ganol yr ardal, gan gysylltu Abertawe ac Amwythig.
- Mae cysylltiadau awyr masnachol eraill yn bodoli y tu allani i'r ardal ym meysydd awyr Caerdydd, Lerpwl a Manceinion.
- Mae'r porthladdoedd masnachol agosaf y tu allan i'r ardal yng Nghaergybi, Abergwaun, Penfro, Abertawe, Caerdydd a Lerpwl.
- Mae hygyrchedd TGCh yn gwella ar draws yr ardal wrth i raglenni i gyflwyno band eang ffibr gael eu datblygu. Mae gan nifer o safleoedd cyflogaeth fynediad uniongyrchol i'r gwasanaethau cyflymder uchel hyn, ond mae ardaloedd o hyd lle mae'r cwmpas arfaethedig heb ei raglennu eto.
- Er bod ychydig o deleffoni symudol ar gael mewn rhannau helaeth o'r ardal, mae hyn yn aml yn 2G ac mae nifer fawr o ardaloedd a phentrefi heb fynediad i 4G a nifer o ardaloedd heb unrhyw fynediad o gwbl.



© RWE

## Ansawdd bywyd

- Lefelau isel o droseddau a gofnodwyd.
- Amgylchedd o ansawdd uchel gydag ardal fynyddig ganolog, Mynyddoedd y Cambrian, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y de, ac wedi'i ffinio gan Barc Cenedlaethol Eryri yn y gogledd.
- Cyfleoedd adloniant a thwristiaeth.
- Asedau pwysig gan gynnwys dŵr, coed ac adnoddau ynni posibl.
- Mae 36% o'r holl dir a ffermir yng Nghymru yng Nghanolbarth Cymru.











## Cysylltiadau â mentrau eraill

Mae Ardaloedd Twf Lleol wedi cael eu sefydlu fel ymagwedd arloesol i helpu i annog a chynnal swyddi a thwf yn yr ardal a hybu adfywio trefi marchnad allweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi dwy ***Ardal Twf Lleol*** yn yr ardal:

- Ardal Twf Lleol Powys; ac
- Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi.

Nid oes unrhyw ***Ardaloedd Menter*** yn yr ardal, ond mae nifer ohonynt wedi cael eu dynodi yn agos, ond y tu allan i'r ardal:

1. Glynebwy i'r de (yn cynnig mynediad da i ganolfannau gweithgynhyrchu eraill yn y DU gan gynnwys Gorllewin Canolbarth Lloegr a chynnal eu cadwyni cyflenwi)
2. Henffordd, Skylon, i'r dwyrain (ffocws ar y sector amddiffyn a diogelwch)
3. Haven Waterway i'r de-orllewin




4. Eryri i'r gogledd (gyda Thrawsfynydd fel canolfan ar gyfer mentrau technoleg carbon isel arloesol a Chanolfan Awyrofod Eryri, yn ffurfio rhan o allu Cymru mewn Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS) gyda'r posibilrwydd o letya Porth Gofod arfaethedig y DU)
5. Glannau Dyfrdwy hefyd i'r gogledd yn lletya canolfannau gweithgynhyrchu uwch ym maes awyrofod, peirianneg fodurol a phroses, y diwydiant electronig, cynhyrchion fferyllol, adeiladu, bwyd, papur a phecynnu ac ynni cynaliadwy

# Ardaloedd economaidd o gwmpas a'u hymagweddau

Yng ngogledd Cymru mae ***Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*** yn hybu adfywio ar draws Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir y Fflint a Wrecsam ac yn datblygu cysylltiadau â Chynghrair Mersi Dyfrdwy a Phwerdy'r Gogledd.

I'r de o'r ardal mae dwy Dinas-Ranbarth wedi cael eu sefydlu ac mae cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau â'r ardaloedd hynny. Mae ***Dinas-Ranbarth Bae Abertawe*** yn cwmpasu'r cyfan o ardal De-orllewin Cymru gan gynnwys ardaloedd Abertawe, Castell-nedd Porth Talbot, Caerfyrddin a Sir Benfro. Ymysg y cynigion buddsoddi allweddol yma mae datblygiad prosiect morlyn llanw.

Mae ***Ardal Cyfalaf Caerdydd*** yn cynnwys y cyfan o ardal De-ddwyrain Cymru gan gynnwys Caerdydd, Casnewydd, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynyw, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Ymysg y prif gynigion buddsoddi yma yw Metro eiconig De-ddwyrain Cymru a fydd yn dwyn yr ardal at ei gilydd ac yn cynnig symudedd i'r ardal yn ei gweithlu medrus i hybu twf.


© Beacon Foods

Mae ***Partneriaeth Menter Leol y Gororau*** ar hyd y ffin â Lloegr yn darparu ffocws ar gyfer twf ac adfywio economaidd yn Swydd Amwythig, Telford a Wrekin a Swydd Henffordd. Mae'n gyswllt pwysig ar gyfer Canolbarth Cymru i ardaloedd Midlands Engine for Growth a Phwerdy'r Gogledd.



## Cryfderau

- ylfaen ymchwil AU o safon fyd-eang
- Ansawdd bywyd a'r amgylchedd
- Cyfalaf cymdeithasol
- Economi amaethyddol
- Adnoddau naturiol
- Cyflogaeth uchel
- Diwylliant o entrepreneuriaeth
- Seilwaith sy'n gwella gan gynnwys band eang a ffyrdd
- Tir ar gael
- Adnoddau technegol
- Ardaloedd diwydiannol cyfagos
- Treftadaeth a diwylliant
- Cynnig twristiaeth

## Gwendida

- Seilwaith a mynediad gwael i'r farchnad a gwasanaethau
- Newidiadau yn y boblogaeth / mudo / symudedd gweithlu medrus
- Busnesau llai yn bennaf
- Cynhyrchiant ac incwm isel
- Dwysedd poblogaeth isel yn arwain at gostau byw a gwasanaethau uwch
- Gweithlu cymwysedig is
- Tangyflogaeth yn hytrach na diweithdra
- Gweithlu sy'n heneiddio

## Cyfleoedd

- Busnesau deillio arloesol o AU
- Defnyddio'r amgylchedd naturiol, cynhyrchion amaethyddol a'r tirlun
- Cryfhau Ardaloedd Twf Lleol fel canolfannau strategol
- Datblygu cysylltiadau economaidd o'r dwyrain i'r gorllewin trwy Bartneriaeth Entrepreneuriaeth Leol y Gororau ac ardaloedd menter
- Datblygu ymagwedd dan arweiniad sgiliau rhanbarthol busnes i dorri'r cylch sgiliau isel / cynhyrchiant isel
- Tyfu'r economi seiliedig ar wybodaeth

## Bygythiadau

- Arafu a chystadleuaeth economaidd byd-eang
- Diffyg buddsoddiad yn y seilwaith
- Datgysylltiad rhwng sgiliau ac anghenion busnes
- Allfudo
- Diffyg tai fforddiadwy
- Tynnu'n ôl a chanoli gwasanaethau gan gynnwys sector cyhoeddus sy'n crebachu
- Cystadleuaeth o ardaloedd economaidd cyfagos



## Amcanion

Ein hamcanion allweddol cytunedig yw:

- Tyfu'r economi a chreu swyddi yng Nghanolbarth Cymru.
- Gwella cynhyrchiant a chynyddu cystadleurwydd.
- Datblygu ein hymagwedd gydweithredol a chonsensws ar ein blaenoriaethau cyffredin ar draws y sector preifat, gwirfoddol a chyhoeddus, gan gydnabod yr heriau gwledig ar draws yr ardal.
- Arallgyfeirio sylfaen economaidd yr ardal gan ganolbwyntio ar gyfleoedd swyddi o ansawdd, arloesi a masnacheiddio i ysgogi cynhyrchiant a thwf.
- Datblygu ein cryfderau ac felly creu masau critigol a chlystyrau trwy adeiladu ar feysydd o lwyddiant presennol a galluoedd cudd gan gydnabod yr heriau a'r cyfleoedd gwledig yn yr ardal.
- Gwella hygyrchedd yn yr ardal rhwng canolfannau allweddol a chlystyrau penodol a chysylltedd yr ardal ag ardaloedd a marchnadoedd o gwmpas.

## Cyfleoedd Arwyddocaol yr Ardal

Cydnabyddwn fod cyfleoedd seiliedig ar sector arwyddocaol yn yr ardal a fydd yn llywio sut rydym yn cyflawni ein hamcanion allweddol. Mae'r rhain i'w gweld ar draws nifer o feysydd allweddol yn ein heconomi;

## Manteisio i'r Eithaf ar Dwf

Busnesau - Sicrhau bod busnesau yn gallu cael mynediad i adnoddau ac yn cael eu hannog i dyfu. Cysylltu cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad ar draws Ewrop, yn fyd-eang ac yng Nghymru, gan geisio darparu'r canlyniadau gorau posibl i fusnesau a sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig at gymorth a darparu gwasanaeth. Hybu entrepreneuriaeth trwy Busnes Cymru a REAP (Rhaglen Sbarduno Entrepreneuriaeth Ranbarthol)

## Sgiliau i wella cynhyrchiant

Datblygu system sgiliau rhanbarthol i ddarparu cyflogaeth gydgysylltiedig a sgiliau sy'n ateb anghenion cyflogwyr lleol a sicrhau mynediad i brentisiaethau. Meithrin arloesi a masnacheiddio trwy gyfleusterau ymchwil ac arloesi sy'n bwysig yn genedlaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ymateb i'n hanghenion sgiliau ar draws yr ardal trwy addysg uwch, addysg bellach a darparwyr eraill sy'n gallu cynnig rhwydwaith amrywiol o gyfleusterau a llwyfannau sgiliau a hyfforddi. Rhoi sylw i heriau ein hardal wledig â phoblogaeth wasgaredig a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn:

- Sicrhau mynediad os oes angen busnes
- Sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth fel ei bod ar gael pan fydd ei hangen, a
- Chadw'r sgiliau hyn a gwerth y buddsoddiad yn yr ardal.

## Ynni a'r Amgylchedd

Datblygu asedau adnewyddadwy a photensial yr ardal i fod yn chwaraewr pwysig ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Gallai hyn hefyd gynnig cyfleoedd i ddatblygu diwydiannau carbon isel ochr yn ochr ag ynni adnewyddadwy.



## Bwyd a Ffermio

Adeiladu ar y capasiti cynhyrchu a phrosesu sefydledig ar draws yr ardal gyda chwmnïau sy'n bwysig yn genedlaethol yn ogystal ag un o'r tri lleoliad Arloesi Bwyd Cymru yn yr ardal yng Nghanolfan Bwyd Cymru i ddatblygu cadwyni cyflenwi byr, ychwanegu gwerth at gynhyrchion, annog cynhyrchu arloesol, sicrhau ffocws ar ansawdd, yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar gysylltiadau â thwristiaeth.

## Cyflymu ein Heconomi Ddigidol

Manteisio i'r eithaf ar yr economi ddigidol a'n hasedau rhanbarthol yn y sector gweithgynhyrchu ac addysg yn ogystal â'r datblygiad ehangach o economi seiliedig ar wybodaeth. Ei defnyddio i agor yr economi wledig, helpu i ysgogi'r ddwy Ardal Twf Lleol a darparu cysylltiadau busnes cyflym i bob rhan o'r ardal. Ymestyn cyrhaeddiad teleffoni symudol a chyflwyno technolegau 4LTE ar draws yr ardal.

## Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

Adeiladu ar y sylfaen weithgynhyrchu sefydledig yn yr ardal, ein clystyrau arbenigol a'n harbenigedd. Mae gennym botensial sylweddol i gyfrannu at lwyddiant cyffredinol economi Cymru a chefnogi ein strategaeth ranbarthol mewn nifer o feysydd; mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys cefnogi rhagoriaeth gweithgynhyrchu yn Nyffryn Hafren a meithrin datblygiad gwasanaethau derbyn a thechnolegau arsyllfa'r ddaear y tynnwyd sylw atynt yn Strategaeth Sector Gofod Cymru.

## Gwyddorau Bywyd

Helpu i ddatblygu busnesau sy'n bodoli a masnacheiddio o fewn y sector ac adeiladu ar y rhagoriaeth ymchwil ac arloesi ym Mhrifysgol Aberystwyth ym maes gwyddor planhigion, anifeiliaid a biolegol, gwyddor filfeddygol, gwyddor amgylcheddol a gwledig. Mae'r Canolfannau Rhagoriaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwledig a gyhoeddwyd yn ddiweddar

© Aber Instruments



gan Gydweithrediaeth Iechyd Canolbarth Cymru, sy'n cynnwys y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Ymchwil Iechyd Gwledig yn Aberystwyth yn ogystal â datblygiad yr Ysgol Milfeddygaeth yn Aberystwyth, yn ysgogwyr pwysig ar gyfer y cyfleoedd hyn.



## Twristiaeth

Gan adlewyrchu tirlun ac arfordir gwledig amrywiol yr ardal mae cyfleoedd i gael effaith sylweddol ar yr economi ranbarthol. Mae'r cyd-destun cenedlaethol yn gweld gwariant twristiaeth yn cynyddu gan 10% erbyn 2020. Mae'n rhaid i ni gynyddu swm a gwerth twristiaeth yn yr ardal hon sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr cyflogedig yn y sector. Mae'r ymagwedd rheoli cyrchfan yn darparu ffordd o sicrhau cydweithredu agosach a meithrin mwy o ddatblygiadau a datblygiadau mwy strategol.

# Ein pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithredu i gyflawni ein hamcanion a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yr ardal yw:

***Blaenoriaeth 1***
Arallgyfeirio'r sylfaen economaidd

***Blaenoriaeth 2***
Cefnogi a chryfhau busnesau sy'n bodoli

***Blaenoriaeth 3***
Creu cyfleoedd swyddi newydd o ansawdd

***Blaenoriaeth 4***
Datblygu sgiliau'r gweithlu

***Blaenoriaeth 5***
Gwella cyfathrebu, hygyrchedd a seilwaith



## *Blaenoriaeth 1* - Arallgyfeirio'r sylfaen economaidd

- Annog mewnfuddsoddiad
- Sicrhau bod safleoedd, adeiladau a gwasanaethau priodol ar gael
- Mynediad i gynhyrchion cymorth busnes hyblyg
- Adnabod cyfleoedd i ddatblygu clystyrau i greu masau critigol i'w hybu a'u datblygu:-
  - economi wledig,
  - diwylliant a threftadaeth leol,
  - yr amgylchedd naturiol gan gynnwys bioamrywiaeth, tirlun, dŵr, adnoddau naturiol eraill ac ynni
- Hybu rhyngweithio â chanolfannau rhagoriaeth, addysg uwch a sefydliadau ymchwil eraill gan gynnwys hybu masnacheiddio ymchwil a chwmnïau deillio
- Cynyddu buddsoddiad ymchwil a datblygu mewn busnesau ac yn y nifer a gyflogir gan fusnesau mewn sectorau strategol allweddol penodol
- Canfod partneriaid strategol a datblygu cysylltiadau economaidd sydd o fudd i ardal Tyfu Canolbarth Crymu
- Datblygu cysylltiadau busnes yn seiliedig ar asedau presennol yn yr ardal gan gynnwys cyfleusterau awyrofod ac asedau eraill gyda chyfleoedd hyfforddi sifiliaid a milwrol




© Planti

## *Blaenoriaeth 2* - Cefnogi a chryfhau busnesau sy'n bodoli

- Sicrhau mynediad i gynhyrchion cymorth busnes integredig a hyblyg gan gynnwys annog mynediad i farchnadoedd newydd a chwalu'r rhwystrau i allforio
- Sicrhau fod safleoedd, adeiladau a gwasanaethau ar gael i gwrdd â'r galw ac i fynd i'r afael â methiant y farchnad.
- Cefnogi ymagweddau cadwyni cyflenwi lleol
- Annog cynhwysiant digidol a manteisio ar dechnoleg ddigidol o fewn busnesau
- Cydnabod a chefnogi'r economi ymwelwyr, marchnata cyrchfannau, atyniadau a digwyddiadau
- Cynyddu nifer y prosiectau ynni carbon isel ac adnewyddadwy sy'n creu buddiannau busnes ac economaidd ehangach, gan gynnwys cadwyni cyflenwi ar gyfer y gymuned a busnesau unigol
- Os yw'n ymarferol, creu ardaloedd cynllunio syml (drwy Orchmynion Datblygu Lleol).

## *Blaenoriaeth 3* - Creu cyfleoedd swyddi newydd o ansawdd

- Creu swyddi gwerth uchel a gefnogir gan fuddsoddiad sector preifat a thwf
- Cynyddu nifer y busnesau sy'n ymgysylltu ac yn gweithio ag addysg bellach ac uwch
- Meithrin arloesi a masnacheiddio ym maes addysg uwch a chanolfannau ymchwil
- Cefnogi cwmnïau deillio i greu cyfleoedd mewnfuddsoddiad, cwmnïau sy'n bodoli a chwmnïau newydd
- Gwella a hyrwyddo cystadleurwydd, ymchwil, gwyddoniaeth ac arloesi, a thechnoleg alluogi mewn busnesau sy'n bodoli



## ***Blaenoriaeth 4*** - Datblygu sgiliau'r gweithlu

- Gwella sgiliau'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol a busnesau i wella eu cystadleurwydd a hybu twf a sicrhau y bydd pobl ifanc sy'n ymuno â gweithlu'r ardal yn cyfrannu at gynhyrchiant:
  - Rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer sgiliau sylfaenol y gweithlu
  - Nodi gofynion sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol
  - Darparu cymwysterau perthnasol ar gyfer busnesau
  - Asesu canlyniadau cyflogaeth ysgolion uwchradd
  - Cyflwyno cynlluniau menter yr ifanc mewn ysgolion uwchradd
  - Hybu modiwlau menter ar gyfer pob myfyriwr addysg bellach ac uwch
  - Gwella canlyniadau PISA Rhyngwladol.
- Sicrhau bod sgiliau'r gweithlu a'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant sgiliau wedi'u halinio i anghenion sgiliau busnesau, gan gynnwys cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dilyn prentisiaethau peirianneg a bod cyfleoedd gan gynnwys Prentisiaethau Lefel Uwch priodol ar gael ac yn hygyrch yn yr ardal
- Rhoi sylw i'r rhwystrau i'r rhai sydd ymhellach o'r farchnad lafur gan gynnwys dysgu a llwybrau i gyflogaeth



© Charcroft Electronics



## ***Blaenoriaeth 5*** - Gwella cyfathrebu, hygyrchedd a seilwaith

- Darparu seilwaith ffisegol sy'n cefnogi cyfleoedd busnes ac yn ysgogi twf economaidd
- Buddsoddi yn yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, a'i warchod, er mwyn cefnogi twf busnesau
- Darparu'r prosesau a fydd yn annog datblygiad preswyl cynaliadwy cynyddol
- Cynyddu cysylltedd band eang cyflym iawn a thra-chyflym a chyfleoedd i fusnesau fanteisio ar dechnoleg
- Annog darparu rhwydwaith ffôn symudol gwell ar draws yr ardal
- Gwella'r llif trafnidiaeth i ddarparu cysylltedd da a gwella amserau teithio yn yr ardal
- Cefnogi economi'r ardal trwy wella cysylltedd ffyrdd i'r ardal a chysylltiadau i'r brif gefnffordd a'r rhwydweithiau traffyrdd
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal

# Manylion cyswllt

**Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru**

Penmorfa
ABERAERON
SA46 0PA

**Ffôn:** 01545 572064